# 1.0 Sefydlu mudiad

## Statws elusennol

## Trosolwg


1. **Cyflwyniad**
2. **Beth yw elusen?**
3. **Oes rhaid i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau?**
4. **Beth yw manteision bod yn elusen gofrestredig?**
5. **Pam fod yn rhaid i elusennau gofrestru?**
6. **Pa fath o strwythur cyfreithiol ddylai elusen ei gael?**
7. **Mynd i'r afael â'r jargon**
8. **Cyngor pellach**


## Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu arweiniad ar bwnc statws elusennol o ran y meysydd canlynol:

- Y diffiniad cyfreithiol o elusen
- Cofrestru gyda'r **Comisiwn Elusennau**
- Y gwahanol fathau o strwythurau cyfreithiol a ddefnyddir gan elusennau.



Llun: Pobl yn dal dwylo o amgylch y byd

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

# Beth yw elusen?

Mae **Deddf Elusennau 2011** yn diffinio elusen yn gyfreithiol fel mudiad sy'n bodoli:

- Ar gyfer dibenion elusennol yn unig
- Ar gyfer lles y cyhoedd (h.y. nid ar gyfer elw preifat)

Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio 'diben elusennol' fel un sy'n disgyn yn y rhestr ganlynol o ddisgrifiadau o ddibenion:

- Atal neu liniaru tlodi
- Datblygu addysg
- Datblygu crefydd
- Datblygu iechyd neu achub bywydau
- Datblygu dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol
- Datblygu'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- Datblygu chwaraeon amatur
- Datblygu hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi, neu hyrwyddo harmoni crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Datblygu'r gwaith o ddiogelu neu wella'r amgylchedd
- Gwella pethau i'r rheini mewn angen yn sgil eu hieuenctid, oedran, afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall.
- Datblygu lles anifeiliaid
- Hyrwyddo effeithlonrwydd lluoedd arfog y Goron: neu effeithlonrwydd yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub neu'r gwasanaeth ambiwlans, ac
- Unrhyw ddiben elusennol cyfreithiol arall.

Mae pob eitem a restrir yn ddisgrifiad neu 'bennawd' o elusen yn hytrach na diben elusennol nodedig ynddo'i hun. Mae'r categori olaf yn golygu fod popeth a ystyrir yn elusennol ar hyn o bryd wedi'u cynnwys, ac mae'n caniatáu i'r Llysoedd gyflwyno dibenion elusennol eraill wrth iddynt godi

Yn ogystal â dangos y bydd yr elusen yn dilyn un neu fwy o ddibenion elusennol, rhaid i bob elusen dalu sylw at gyfarwyddiadau'r **Comisiwn Elusennau** a dangos sut y bydd yn cyflwyno buddion i'r cyhoedd.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales

## Pa amodau eraill sydd?

- Rhaid i'r holl nodau ac amcanion (yr 'amcanion') a nodir yn nogfen lywodraethu elusen fod yn gwbl elusennol. Dyma brif ddibenion yr elusen. Ni all elusen gael cymysgedd o amcanion elusennol ac amcanion nad ydynt yn rhai elusennol.
- Rhaid i elusen dim ond cyflawni gweithgareddau sy'n hyrwyddo ei phrif ddibenion.
- Gall elusen dim ond cyflawni gweithgareddau ymgyrchu a gwleidyddol mewn modd cyfyngedig, a dim ond os yw'n hyrwyddo ei dibenion elusennol.
- Ni all elusen fasnachu am gyfnod sylweddol na rheolaidd at ddibenion codi arian yn unig, ond gall fasnachu wrth gyflawni un o brif ddibenion yr elusen.
- Rhaid i ddogfen lywodraethu elusen gael cymal diddymu er mwyn sicrhau, os bydd yn rhaid i'r elusen ddod i ben, y bydd yr asedau sydd ganddi ar ôl yn cael eu trosglwyddo i fudiad arall sy'n ymroi i ddibenion elusennol tebyg.
- Gall yr elusen dim ond defnyddio'i hasedau i ddatblygu ei hamcanion ymhellach, ac ni all fel arall eu dosbarthu er budd personol yr ymddiriedolwyr (os na awdurdodwyd hyn yn y ddogfen lywodraethu neu gan y **Comisiwn Elusennau**), neu er elw preifat i drydydd partïon.

### Canllawiau perthnasol

Dibenion elusennol a buddion cyhoeddus (Saesneg yn unig)

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

## Oes rhaid i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau?

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i elusen gofrestru gyda'r **Comisiwn Elusennau** os oes ganddo:

- incwm blynyddol o £5000 neu fwy, ac os yw
- wedi'i lleoli yng Nghymru neu Loegr

Nid oes rhaid i elusennau bach o dan y trothwy hwn gofrestru, ac mae rheoleiddwyr elusennau ar wahân ar gyfer y rheini yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw elusen llai nad yw wedi'i chofrestru'n golygu ei bod hi'n llai o elusen; mae dim ond yn golygu y gellir dim ond cyfeirio ati fel elusen yn hytrach nag elusen 'gofrestredig'. Rhaid iddi barhau i gydymffurfio â'r gyfraith elusennau gyffredinol a daw o dan awdurdodaeth y **Comisiwn Elusennau** o hyd.

**Gwybodaeth bwysig**

Rhaid i bob elusen a sefydlir fel **Mudiad Corfforedig Elusennol (CIO)** gofrestru gyda'r **Comisiwn Elusennau**, waeth beth yw ei hincwm blynyddol. Daw **CIO**s i fodolaeth gyfreithiol pan fyddant wedi'u cofrestru gan y **Comisiwn** yn unig.

## Elusennau esempt ac Elusennau wedi'u heithrio

Nid oes yn rhaid i rai elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, am eu bod yn cael eu hystyried yn elusennau 'esempt' neu 'elusennau wedi'u heithrio'.

- **Elusennau esempt**: elusennau a arolygir gan reolydd heblaw'r Comisiwn Elusennau
  (e.e. yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol neu'r Gorfforaeth Tai)
- **Elusennau wedi'u heithrio**: mae rhai elusennau o fathau penodol wedi'u heithrio rhag cofrestru os yw eu hincwm o dan drothwy penodol
  (e.e. rhai elusennau crefyddol, elusennau'r Sgowtiaid a'r Geidiaid, a rhai o gronfeydd elusennol y lluoedd arfog)

Mae gan y Comisiwn Elusennau fwy o fanylion ynghylch elusennau esempt ac elusennau wedi'u heithrio ar ei wefan os hoffech gael gwybod rhagor.

**Canllawiau Perthnasol**

Sefydlu elusen cam wrth gam (Saesneg yn unig)

## Beth yw manteision bod yn elusen gofrestredig?

- Mae'n dda ar gyfer hyder y cyhoedd yn y mudiad gan fod cofrestru gyda'r **Comisiwn Elusennau** a chael rhif elusen yn cael ei weld yn aml fel arwydd y gellir ymddiried ynoch a'ch bod o fudd i'r cyhoedd.
- Mae rhai cyrff cyllido a rhoddwyr preifat yn rhoi i elusennau cofrestredig yn unig.
- Rhyddhad gorfodol o 80% ar drethi busnes, gydag 20% pellach yn ôl disgresiwn sy'n golygu y gall rhai awdurdodau lleol roi cymaint â 100% o ryddhad i elusennau.
- Rhyddhad treth
  e.e. treth incwm, treth gorfforaeth, treth enillion cyfalaf, treth stamp a chonsesiwn TAW.
- Gall fod yn haws denu gwirfoddolwyr.
- Gallu adennill treth a dalwyd eisoes gan roddwyr sy'n cyfrannu drwy GiftAid, cyfamodau neu ddidyniad o'r gyflogres.

## Pam fod yn rhaid i elusennau gofrestru?

Gan fod y gyfraith yn nodi bod yn rhaid i elusennau gael eu sefydlu er budd y cyhoedd, rhaid ei bod hi'n amlwg fod gan ymddiriedolwyr elusennau (h.y. y corff llywodraethu) atebolrwydd i'r cyhoedd.

Maen nhw'n gyfrifol am arian ac eiddo a gaiff eu cyfrannu gan eraill at ddibenion elusennol penodol, ac mae elusennau yn mwynhau buddion cyllidol sy'n effeithio ar gronfeydd cyhoeddus megis rhyddhad treth (fel y nodir uchod).

### Beth am fudiadau sydd â dibenion rhannol elusennol ond nid yn gwbl elusennol?

Os yw'r mudiad eisiau statws elusennol, rhaid iddi roi terfyn ar weithgareddau nad ydynt yn elusennol, oherwydd gall elusen dim ond bod yn gofrestredig os yw eu holl ddibenion yn rhai elusennol.

Mewn sefyllfa o'r fath byddai angen i'r mudiad benderfynu a yw buddion statws elusennol yn werth gwneud hynny, neu gellid sefydlu mudiad ar wahân/is-gwmni i gyflawni gweithgareddau nad ydynt yn rhai elusennol (e.e. masnachu).

## Beth os yw elusen eisiau masnachu i godi arian ar gyfer ei gwaith?

Gall elusen fasnachu os yw'r fasnach hynny'n hyrwyddo neu'n ychwanegu at ei hamcanion. Gelwir hyn yn 'fasnachu prif ddiben'. Dylid gwneud unrhyw fasnachu sylweddol nad yw'n elusennol (mae esemptiad ar gyfer masnachu ar raddfa fechan) drwy gwmni masnachu ar wahân nad yw'n elusennol. Gellir trosglwyddo unrhyw elw a wneir o'r fasnach yn ôl i'r elusen mewn modd effeithlon o ran treth.

# Pa fath o strwythur cyfreithiol ddylai elusen ei gael?

Mae strwythur cyfreithiol elusen yn hollol wahanol i'w statws elusennol. Mae 'statws elusennol' yn cyfeirio at a yw'r mudiad yn elusen gofrestredig ai peidio, ond gallai'r mudiad hwnnw gael un o blith nifer o strwythurau cyfreithiol. Fel arfer bydd mudiadau gwirfoddol wedi dewis mabwysiadu un o'r strwythurau cyfreithiol canlynol:

- Cymdeithas anghorfforedig
- Cwmni cyfyngedig drwy warant
- Ymddiriedolaeth.

## Mudiad Corfforedig Elusennol (CIOs)

**Gwnaeth Deddf Elusennau 2006** hefyd gyflwyno strwythur cyfreithiol newydd, y '**Mudiad Corfforedig Elusennol (CIO)**, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2012. Strwythur corfforedig yw hwn a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer elusennau a gaiff eu rheoleiddio gan y **Comisiwn Elusennau** yn unig, gan felly gael gwared â'r angen i adrodd ddwywaith i'r **Comisiwn** a **Thŷ'r Cwmnïau**.

Mae'r strwythur ar gael fel **CIO** Sefydliad (gydag ymddiriedolwyr yn unig fel aelodau) a **CIO** Cymdeithas (aelodaeth ehangach). Mae'r model wedi bod yn boblogaidd iawn, ac mae'r rhan helaeth o gofrestriadau newydd gan elusennau'n CIOs bellach. Os ydych chi'n ystyried cofrestru fel **CIO**, byddwch yn ymwybodol na fydd yr elusen yn bodoli'n gyfreithiol hyd nes y caiff ei chofrestru gan y **Comisiwn**.

I gael rhagor o fanylion ar amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol, gan gynnwys y rhai a nodwyd uchod, gweler y daflen wybodaeth:
**1.5 Dewis strwythurau cyfreithiol**

**Canllawiau perthnasol**

Newid strwythur eich elusen

## Sut gallwn ni sicrhau y bydd ein dogfen lywodraethu yn dderbyniol i'r Comisiwn Elusennau?

Fel cyfarwyddyd, gweler dogfennau llywodraethu enghreifftiol y Comisiwn Elusennau, sy'n cynnwys:

- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu ar gyfer cwmni elusennol (GD1)
- Gweithred ymddiriedolaeth enghreifftiol ar gyfer ymddiriedolaeth elusennol (GD2)
- Cyfansoddiad ar gyfer cymdeithas anghorfforedig (GD3)
- Cyfansoddiad enghreifftiol cymdeithas neu sefydliad ar gyfer **CIO**
- Cyfansoddiad ar gyfer elusen fechan

Mae rhai elusennau cenedlaethol mawr yn llunio dogfen lywodraethu safonol a gymeradwyir gan y Comisiwn Elusennau y gellir ei defnyddio gan fudiadau sy'n gysylltiedig â'r elusen honno.

**Dolen Allanol**

Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu rhestr o'r mudiadau hyn ar ei wefan:
Rhestr o fudiadau â dogfennau llywodraethu cymeradwy (Saesneg yn unig)

## Rydyn ni eisiau bod yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig; pa un ddylen ni ei wneud yn gyntaf?

Ar hyn o bryd, rhaid i bob cwmni gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, a rhaid i elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Fodd bynnag, ni all y Comisiwn Elusennau gofrestru mudiad nad yw'n bodoli'n ffurfiol, felly mae'n rhaid i chi gofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn gyntaf - ond gwnewch yn siŵr bod eich dogfen lywodraethu'n dderbyniol i'r Comisiwn Elusennau cyn gwneud hynny (megis un o'i fodelau).

**Noder**: Os ydych chi eisiau sefydlu mudiad fel CIO, dim ond gyda'r Comisiwn Elusennau y bydd yn rhaid i chi gofrestru, yn hytrach na gyda nhw a Thŷ'r Cwmnïau (gweler uchod).

## Pan fyddwch chi'n barod i gofrestru

Ewch i wefan y **Comisiwn Elusennau** a darllenwch y canllawiau ar Sut i Gofrestru Elusen. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen y canllawiau cyn dechrau eich cais, oherwydd gall camgymeriadau ar y ceisiadau arwain at oediadau hir neu hyd yn oed olygu y bydd y cais yn cael ei wrthod.

Os oes gennych chi gwestiynau neu bryderon ynghylch cofrestru elusen, neu ynghylch eich cais, gallwch gysylltu â'ch **Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC)** am arweiniad.

**Dolen Allanol**

Dewch o hyd i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol:

Dod o hyd i'ch CVC

# Mynd i'r afael â'r jargon

## Amcanion elusennol

Dyma derm arall am ddibenion eich elusen, neu eich nodau ac amcanion, y mae'n rhaid i chi weithredu o'u mewn.

## Ymddiriedolwyr

Mae **adran 97 o Ddeddf Elusennau 1993** yn diffinio ymddiriedolwyr fel 'pobl sydd â rheolaeth gyffredinol o weinyddiaeth elusen'.

Fel arfer, aelodau pleidleisio llawn o'r corff llywodraethu yw'r rhain y gellir cael eu galw wrth enwau amrywiol, gan gynnwys: ymddiriedolwyr rheoli, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr.

**Noder**: os oes rhywun ar gorff llywodraethu mudiad sydd hefyd yn gwmni, bydd yn cael ei ystyried yn gyfreithiol fel cyfarwyddwr y cwmni hwnnw (yn ôl y gyfraith cwmnïau) yn ogystal â bod yn ymddiriedolwr yn ôl y gyfraith elusennau.

## Dogfen Lywodraethu

Unrhyw ddogfen sy'n nodi dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y bydd yn cael ei gweinyddu. Gall cael ei galw'n weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac yn erthyglau cymdeithasu, ac yn llai cyffredin, yn ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol neu'n Gynllun y **Comisiynwyr Elusennau.**

Mae'r math o ddogfen lywodraethu a ddefnyddir i sefydlu mudiad fel arfer yn cael ei lywio gan y strwythur cyfreithiol a ddewiswyd ar gyfer y mudiad hwnnw.

## Atebolrwydd cyfyngedig

Yn y mwyafrif o achosion, caiff cyfarwyddwyr cwmni elusennol (neu **CIO**) (aelodau'r corff llywodraethu) eu diogelu rhag atebolrwydd personol i drydydd partïon (ond gallant barhau i fod yn atebol yn bersonol i'r cwmni/elusen am dorri ymddiriedaeth a chyfraith cwmnïau), ac mae'r cwmni dim ond yn atebol am ddyledion hyd at swm yr asedau sydd ar gael ganddo. Bydd hyn yn cynnwys taliadau gwarant yr aelodau y talwyd amdanynt (gweler isod)

I gael rhagor o wybodaeth am atebolrwydd cyfyngedig, gweler y Daflen Wybodaeth:
**5.7 Atebolrwydd llywodraethwyr ac aelodau corff llywodraethu.**

## Cwmni cyfyngedig drwy warant

Mae aelodau cwmni yn gwarantu i dalu swm penodedig os bydd y cwmni'n galw'r warant neu'n dod i ben, ac fel arfer, bydd y swm hwn rhwng £1 a £10. Yn wahanol i gwmni a gyfyngir gan gyfranddaliadau, ni ddosberthir elw i'r aelodau, ond gallant bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol. Dyma'r strwythur cwmni arferol a ddefnyddir yn y trydydd sector.

## Mudiad Corfforedig Elusennol (CIO)

Strwythur corfforedig yw **CIO** a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer elusennau, ac mae ganddo Gyfansoddiad, yn hytrach na Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu (a ddefnyddir gan strwythurau cwmni). Rhaid i'r brif swyddfa fod yng Nghymru neu Loegr, a rhaid iddo gael un aelod neu fwy. Mae atebolrwydd cyfyngedig yn berthnasol i **CIO**s yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i gwmnïau cyfyngedig drwy warant (gweler uchod).

Gall **CIO** gael corff o aelodau ar wahân i ymddiriedolwyr ei elusen (CIO cymdeithas) neu gall ymddiriedolwyr yr elusen a'r aelodau fod yr un bobl (CIO sefydliad)

**Dolen Allanol**
Gellir gweld cyfansoddiadau enghreifftiol o'r ddwy ffurf hyn ar wefan y Comisiwn Elusennau:
Comisiwn Elusennau - Cyfansoddiadau Enghreifftiol

## Cymdeithas anghorfforedig

Fel arfer, caiff grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd ar gyfer diben cyffredin ac sy'n cytuno i fod yn rhwym wrth set o reolau eu galw'n 'Gyfansoddiad'.

Ni chaiff mudiadau o'r fath eu hystyried fel endid cyfreithiol unigol yn eu hunain, felly nid ydynt yn mwynhau'r atebolrwydd cyfyngedig a gaiff mudiadau corfforedig.

## Ymddiriedolaeth

Strwythur cyfreithiol yw ymddiriedolaeth sy'n codi pan fydd eiddo'n cael ei roi i unigolyn neu unigolion a elwir yn ymddiriedolwyr, a phan fydd yn rhaid i'r ymddiriedolwyr hynny gadw'r eiddo hwnnw er budd unigolion eraill a elwir yn fuddiolwyr.

Fel arfer, bydd buddion y buddiolwyr wedi'u nodi mewn gweithred ymddiriedolaeth sy'n creu'r ymddiriedolaeth. Ni chaiff ymddiriedolaethau eu hystyried yn endidau cyfreithiol unigol yn eu hunain, felly nid ydynt yn mwynhau'r atebolrwydd cyfyngedig a gaiff mudiadau corfforedig.

## Cyngor pellach

**Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr**
**Ffôn: 0845 3000 218**
https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission

**Tŷ'r Cwmnïau**
**Ffôn: 0303 1234 500**
https://www.gov.uk/government/organisations/companies-house

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
[https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/](https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.